

# **Ysgol Meddygaeth**

**Polisi Derbyn ar gyfer  
Rhaglenni Israddedig ym Meddygaeth**

**Mynediad 2022**

## Cynnwys

Nodau a llywodraethu	3
Y Cyrsiau	3
A100 (5 mlynedd)	
A104 Rhagarweiniol (6 blynedd)	
A101/A102 Mynediad i Feddygaeth i Raddedigion (4 blynedd)	
Gofynion mynediad	4
Amgylchiadau esgusodol	5
Ymgeiswyr rhyngwladol	5
Ymgeiswyr aeddfed a graddedigion	6
Ehangu cyfranogiad	6
Y broses ddethol	6/7
Academaidd	
UCAT/GAMSAT	
Gofynion anacademaidd	
Cyfweiliadau	
Arfer annheg	7
Amodau mynediad eraill	8
Cadarnhau lle	8
Trosglwyddiadau	8
Cyfathrebu, cwynion/apeliadau, ymholiadau pellach	8
Atodiad	9
Gofynion TGAU	
Gofynion Safon Uwch ar gyfer A100/A104	
Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru	
Graddedigion/Cyrsiau ffrwd fwydo	
Y Fagloriaeth Ryngwladol	
Bagloriaeth Ewropeaidd	
Rhaglenni Diploma Cyn Prifysgol Caergrawnt, Bagloriaeth AQA, Diploma Mynediad	
Cymwysterau Iwerddon	
Cymwysterau'r Alban	
Cymwysterau BTEC	
Graddedigion deintyddol	

## Nodau a llywodraethu

Nod yr Ysgol Meddygaeth yw derbyn myfyrwyr sydd â'r nodweddion, y gallu a'r priodoleddau a all elwa ar ein rhaglen feddygol, a **“denu, hyfforddi a chadw'r myfyrwyr a'r staff gorau, gan greu graddedigion sy'n deall anghenion unigolion a'r gymuned y maen nhw'n byw ynddi.”**

I wneud hyn mae angen gwneud yn siŵr bod y broses o ddethol myfyrwyr yn wrthrychol, tryloyw, agored, teg a heb wahaniaethu o unrhyw fath. Mae'r broses ddethol wedi'i rhwymo gan bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol <https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/equality-and-diversity>

Ein nod yw sicrhau y rhoddir cyfle cyfartal i bob unigolyn y mae ei gais yn cael ei ystyried yn unol â *Datganiad ar y gwerthoedd a'r priodoleddau craidd sydd eu hangen i astudio meddygaeth* y Cyngor Ysgolion Meddygol, <https://www.medschools.ac.uk/media/2542/statement-on-core-values-to-study-medicine.pdf>

Rydym yn annog ceisiadau gan bobl o gefndiroedd amrywiol ac yn defnyddio data cyd-destunol i'n helpu i wneud hyn. Anogir ceisiadau o Gymru oherwydd eu bod yn cael eu tangynrychioli o ran ceisiadau ar gyfer meddygaeth yn y DU.

Yn ogystal, caiff ymgeiswyr sydd ag anabledd eu croesawu, a dylent edrych ar ddogfen *Gateways to the Professions* y Cyngor Meddygol Cyffredinol, <https://www.gmc-uk.org/>.

Mae dewis ar gyfer ysgol feddygaeth yn golygu dewis ar gyfer y proffesiwn meddygol, a dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o ddyletswyddau myfyriwr meddygol fel yr amlinellir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn y dogfennau canllaw *Medical Students: Professional Behaviour and Fitness to Practise and Good Medical Practice* (<https://www.gmc-uk.org/>).

Caiff y broses Dderbyn ei goruchwyllo gan y Cyfarwyddwr Derbyn Myfyrwyr a Grŵp Derbyn, sy'n cynnwys staff academiaidd yr Ysgol Meddygaeth o dan lywodraethiant y Brifysgol. Mae'r Grŵp hwn yn cynghori ar bolisi ac achosion unigol. Gellir cysylltu â Thîm Gweinyddol Derbyn, sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Grŵp Derbyn, drwy [medadmissions@caerdydd.ac.uk](mailto:medadmissions@caerdydd.ac.uk)

## Y Cyrsiau

### Cwrs 5 mlynedd A100

Mae hwn ar gyfer ymgeiswyr sydd â thair gradd Safon Uwch neu gymwysterau cyfwerth gan gynnwys Cemeg a Bioleg. Mae'n bosib y bydd myfyrwyr sy'n cyflawni'r cwrs 5 mlynedd yn dymuno ystyried cyflawni *blwyddyn ychwanegol* i gwblhau gradd ymsang.

### Cwrs Rhagarweiniol 6 blynedd A104

Mae'r cwrs hwn wedi'i ddylunio ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi dangos potensial academiaidd uchel, ond nad oes ganddynt y dyfnder o ran arbenigedd gwyddonol/y pwnc sydd ei angen i gael mynediad i'r Rhaglen A100. Gall hyn fod yn llwybr i Feddygaeth ar gyfer ymgeiswyr nad oes ganddynt bynciau gwyddonol Safon Uwch, neu sy'n cynnig Bioleg neu Gemeg ar eu pen eu hunain yn unig, gydag o leiaf dau bwnc arall.

**Nid yw A104 ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cymryd pynciau gwyddoniaeth ar lefel TAG Safon Uwch, ond sydd wedi methu ag ennill y graddau angenrheidiol i gael lle yn rhaglen A100.**

Mae strwythur modiwlau rhaglen A104 yn golygu bod myfyrwyr yn astudio dros un flwyddyn ragarweiniol, ac yn amodol ar asesiad boddhaol, yn mynd yn syth i mewn i'r cwrs A100 y flwyddyn ganlynol. Mae'n bosib y bydd myfyrwyr sy'n cyflawni cwrs 6 blynedd yn dymuno ystyried cyflawni *blwyddyn ychwanegol* i gwblhau gradd ymsang.

#### Cwrs 4 blynedd A101/A102 Mynediad i feddygaeth i raddedigion

Mae'r cwrs hwn ar gael i ymgeiswyr sydd wedi cofrestru ar un o'r pedair rhaglen ffrwd fwydo **yn unig**: (gall graddedigion eraill wneud cais am naill ai'r cwrs A100 5 mlynedd neu'r cwrs Rhagarweiniol A104 6 blynedd)

- Gradd BSc (Anrh.) Ffarmacoleg Feddygol, Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd (B210)
- Gradd BSc (Anrh.) yn y Gwyddorau Biofeddygol, Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd (BC97)
- Gradd BSc (Anrh.) yn y Gwyddorau Meddygol, o Brifysgol De Cymru (B901)
- Gradd BMedSci (Anrh.) yn y Gwyddorau Meddygol o Brifysgol Bangor (B100)

Mae darpariaeth ar gyfer myfyrwyr o bob ffrwd fwydo (gweler uchod) i ddechrau yn ail flwyddyn y rhaglen Feddygol A100 5 mlynedd yng Nghaerdydd (A101). Yn ogystal, gall myfyrwyr o'r ffrydiau bwydo wneud cais i astudio eu gradd feddygol yn y gogledd (A102). Bydd myfyrwyr ar y ddau gwrs yn graddio o Brifysgol Caerdydd.

Cewch fanylion yr holl raglenni yn y Prosbectws i Israddedigion

<http://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate>

#### Gofynion mynediad

Mae'n rhaid bod gan bob ymgeisydd radd 6/B TGAU (neu gymhwyster cyfatebol) mewn Mathemateg, Saesneg Iaith, Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl (6,6 neu B/B) neu Gemeg a Bioleg. Mae ymgeiswyr (oni bai bod ganddynt radd) yn cael sgôr ar sail y pedwar pwnc uchod a'r pum canlyniad TGAU gorau arall (neu lefel gyfwerth). Ni roddir sgôr i ganlyniadau sy'n is na 6/B.

Mae ymgeiswyr sydd eisoes wedi cwblhau eu Safon Uwch yn cael credyd ychwanegol am y rhain.

Mae ymgeiswyr sy'n byw yng Nghymru wedi'u tangynrychioli mewn ceisiadau i ysgolion meddygol yn y Deyrnas Unedig, a bydd ystyriaeth ychwanegol yn cael ei rhoi i'w ceisiadau.

Anogir **ymgeiswyr aflwyddiannus** i ailymgeisio – cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf mynediad gofynnol ar gyfer y flwyddyn y maen nhw'n dymuno gwneud cais amdani.

Ar gyfer cwrs A100, mae'n rhaid i ymgeiswyr gynnig tair Safon Uwch (neu gyfwerth) gan gynnwys Bioleg, Cemeg a thrydydd pwnc (gweler yr Atodiad). Ar gyfer A104, gallai'r ymgeiswyr gynnig tri phwnc Safon Uwch, gydag un ohonynt un ai yn Bioleg neu Gemeg, ond nid y ddau (gweler yr Atodiad).

Mae gofyn i bob ymgeisydd **israddedig** (ac ymgeiswyr sydd wedi graddio sy'n gwneud cais i A104), gymryd Prawf Gallu Clinigol y Brifysgol (**UCAT**) **rhwng mis Gorffennaf a Hydref blwyddyn y cais**. Ni dderbynnir canlyniadau profion a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gellir defnyddio'r sgôr UCAT fel rhan o'r gweithdrefnau asesu.

Mae'n bosib y bydd gofyn i ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn ystod 2021 gymryd rhan mewn arbrawf newydd ar-lein ar gyfer y prawf craffter mewn sefyllfaoedd (CASPer). Os byddwn ni'n ei beilota, mae'n bosib y byddwn ni'n gofyn i bob ymgeisydd sefyll y prawf. Ni fydd cost i'r ymgeisydd, ac ni fydd canlyniad y prawf yn cyfrannu at y penderfyniadau yn y gylchred ymgeisio. Ceir rhagor o wybodaeth yma:

[www.takecasper.com](http://www.takecasper.com)

#### Ceisiadau UCAS

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau pob adran y ffurflen UCAS, a dylent gynnwys gwybodaeth sy'n cefnogi pa mor addas ydynt ar gyfer cwrs meddygol yn eu datganiadau personol. Dylai'r datganiad personol gynnwys cipolwg ar yrfa ym maes meddygaeth, tystiolaeth o brofiad a myfyrnod mewn

amgylchedd gofalgar, tystiolaeth ac ystyriaeth o gyfrifoldeb personol, tystiolaeth o agwedd gytbwys at fywyd, tystiolaeth o ddysgu hunangyfeiriedig.

Mae'n rhaid i'r holl ymgeiswyr fod yn 18 neu'n hŷn erbyn 20 Medi o flwyddyn dechrau'r cwrs, oherwydd bod myfyrwyr mewn amgylchedd clinigol o'r flwyddyn gyntaf.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno i'r Brifysgol ohirio eu mynediad ddangos hyn ar eu ffurflen UCAS drwy nodi'r flwyddyn dderbyn. Dim ond am 12 mis y gall myfyrwyr ohirio eu mynediad. Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais i ohirio dechrau ar ôl derbyn cynnig gan yr Ysgol Meddygaeth yn cael eu hystyried gan y Grŵp Derbyn ar sail achos.

## Amgylchiadau Esgusodol

### *Cyn chyflwyno cais UCAS*

Os byddwch o'r farn bod rhywbeth wedi cael effaith neilltuol ar eich perfformiad academiaidd, gallwch gyflwyno ffurflen amgylchiadau esgusodol y mae'n rhaid ei chyflwyno cyn gwneud cais neu wrth ei wneud. Er mwyn i ni ystyried amgylchiadau esgusodol, mae'n rhaid i ni gael 'Ffurflen Amgylchiadau Esgusodol' wedi'i chwblhau gyda thystiolaeth ategol (llythyr gan weithiwr meddygol proffesiynol os yw'n ymwneud ag iechyd, neu llythyr gan gyfadran yn yr ysgol bresennol) cyn diwedd mis Medi 2021. Mae'r ffurflen hon ar gael ar y wefan yn

<https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/admissions-criteria/medicine/medicine> neu gellir gwneud cais drwy e-bost [medadmissions@caerdydd.ac.uk](mailto:medadmissions@caerdydd.ac.uk)

### *Perfformiad ar safon uwch neu gyfwerth*

Fel arfer, ni fydd ymgeiswyr sydd wedi methu â chyrraedd AAA (neu gymhwyster cyfatebol) y tro cyntaf yn cael eu hystyried. Ni chaiff canlyniadau Safon UG, a gyflawnir fel rhan o gwrs Safon Uwch dwy flynedd, eu hystyried wrth ddewis ymgeiswyr ar gyfer cyfweliadau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd arholiadau ail-sefyll yn cael eu hystyried ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais i astudio meddygaeth yng Nghaerdydd o'r blaen ac sydd wedi cwblhau eu Safon Uwch ac wedi derbyn eu graddau. Dylai'r rhai yr oedd eu tangyflawniad yn deillio o'u hamgylchiadau esgusodol, ac sydd wedi gwneud cais i astudio Meddygaeth yng Nghaerdydd, lenwi ffurflen amgylchiadau esgusodol

<https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/applying/admissions-criteria/medicine/medicine>

Mae'n rhaid ei chyflwyno cyn 1 Medi 2021. Bydd unigolion yn cael gwybod p'un a yw eu hamgylchiadau'n cael eu hystyried, ac os byddan nhw'n llwyddo yn y cyfweliad wedi hynny, byddant fel arfer yn cael cynnig amodol.

Ni fydd ceisiadau lle cyflawnir Cymwysterau Lefel 3 ychwanegol ar ôl Safon Uwch yn cael eu hystyried, oni bai bod amgylchiadau esgusodol a chytundeb ar waith gyda'r Grŵp Derbyn Myfyrwyr.

## Ymgeiswyr rhyngwladol

Mae'r Ysgol yn croesawu ceisiadau UCAS gan fyfyrwyr rhyngwladol. Dylai ymgeiswyr sy'n cynnig cymwysterau oni bai am gymwysterau Safon Uwch neu'r Ysgoloriaeth Ryngwladol gysylltu â'r Tîm Derbyn Myfyrwyr, [medadmissions@caerdydd.ac.uk](mailto:medadmissions@caerdydd.ac.uk), a rhoi manylion llawn am eu cymwysterau er mwyn cael cyngor cyn gwneud cais.

Mae'n rhaid bod gan yr holl ymgeiswyr rhyngwladol **gymhwyster** iaith Saesneg derbyniol.

<http://www.cardiff.ac.uk/cy/study/international/english-language-requirements/undergraduate>

Os yw'r cymhwyster yn yr arfaeth, bydd yn ffurfio rhan o'r cynnig. Mae'n bosibl y caiff canlyniadau'r cymhwyster iaith Saesneg a ail-gymerwyd eu derbyn, ond mae'n rhaid eu cael cyn y gellir cyflwyno cynnig.

Mae pob lle ar gyrsiâu A100, A101, A102 ac A104 yn amodol ar lwyddo yn y cyfweliad. Mae'r polisi hwn yn cynnwys ymgeiswyr rhyngwladol a ddylai fod yn barod i ddod i gyfweliad ym Mhrifysgol Caerdydd. Nid yw Prifysgol Caerdydd yn ad-dalu unrhyw gostau teithio ar gyfer unrhyw ymgeisydd. Anfonir arolwg at

unrhyw ymgeiswyr sydd â statws ffioedd tramor yn ystod y broses ymgeisio er mwyn cadarnhau'r trefniadau ariannu. Os bydd unigolyn yn cael yr arolwg, mae'n ofynnol eu bod yn ei lenwi.

Mae Prifysgol Caerdydd wedi dod yn bartneriaid diweddar gyda *Study Group* i ddarparu llwybr academiaidd Blwyddyn Sylfaen Rhyngwladol mewn Iechyd, Meddygaeth a Gwyddorau Bywyd. Caiff ei addysgu yn y Ganolfan Astudio Rhyngwladol sydd yng nghanol ein campws, a bydd y myfyrwyr cyntaf yn cael eu derbyn i'r rhaglen hon o fis Medi 2020, gyda rhaglen lwybr sy'n cynnwys meddygaeth. I ddysgu rhagor am y rhaglenni sydd ar gael, ac er mwyn cael gwybodaeth am sut i ymgeisio, llenwch ffurflen ymholi yn: <https://isc.cardiff.ac.uk/university-referrals/>. Ar ôl i chi gofrestru, bydd cydweithwyr yn y Ganolfan Astudio yn darparu rhagor o wybodaeth.

## Ymgeiswyr aeddfed a graddedigion

Gall ymgeiswyr sydd wedi graddio wneud cais i gael eu derbyn ar gyfer naill ai'r rhaglen pum mlynedd (A100) neu'r rhaglen chwe blynedd (104), yn unol â'u profiad academiaidd blaenorol yn y gwyddorau. Bydd myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd mewn disgyblaethau eraill yn cael eu hystyried ar gyfer A104, a gallant ymgeisio ym mlwyddyn olaf eu cwrs neu ar ôl cwblhau eu gradd. Fel arfer, ni fydd myfyrwyr sydd eisoes wedi dechrau cwrs gradd ac nad ydynt ym mlwyddyn olaf eu cwrs yn cael eu hystyried, oni bai bod prawf o amgylchiadau esgusodol anrhagweladwy a/neu sylweddol sydd wedi'u rhwystro rhag cwblhau'r rhaglen radd wreiddiol. Dylai darpar ymgeiswyr mewn amgylchiadau o'r fath lenwi ffurflen amgylchiadau esgusodol, a bydd y ffurflen yn cael ei hystyried gan y Grŵp Derbyn Myfyrwyr.

Ni fydd ymgeiswyr sydd wedi methu â chwblhau cwrs am resymau academiaidd neu faterion uniondeb yn cael eu hystyried.

Bydd cymwysterau academiaidd a gafwyd cyn dechrau'r brifysgol hefyd yn cael eu hystyried, a bydd angen i ymgeiswyr graddedig fodloni'r gofynion mynediad gofynnol yn yr Atodiad, a bydd angen iddynt gyflawni gradd BSc Anrhydedd 2:1 neu'n uwch yn eu gradd gyntaf.

Mae gofyn i ymgeiswyr graddedig sy'n gwneud cais i A104 sefyll yr UCAT. Ni dderbynnir canlyniadau profion a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Gellir defnyddio'r sgôr UCAT fel rhan o'r gweithdrefnau asesu.

Mae gofyn i bob ymgeisydd arall (oni bai am y rhai hynny sy'n gwneud cais i A104) gymryd Prawf Gallu Clinigol yr Ysgol Meddygaeth (**GAMSAT**) erbyn mis Medi y flwyddyn y gwneir y cais.

<https://gamsat.acer.org/university-admission/admission-uk>

Caiff canlyniad GAMSAT y flwyddyn cyn gwneud y cais hefyd ei ystyried.

Croesewir ceisiadau gan fyfyrwyr aeddfed. Caiff y rhai hynny sy'n astudio Mynediad at Ddiploma Gwyddoniaeth neu Fynediad at Ddiploma Meddygaeth a gydnabyddir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch <http://www.accesstohe.ac.uk/Pages/Default.aspx> eu hystyried ar sail unigol ar gyfer dechrau'r Rhaglen Ragarweiniol chwe blynedd (A104). Ystyrir y cymhwyster mynediad hwn ar gyfer yr ymgeiswyr hynny nad oeddent yn gallu parhau â'u haddysg yn yr ysgol neu'r coleg ôl-16. Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sydd wedi bod allan o addysg amser llawn am o leiaf **pedair** blynedd cyn eu cwrs Mynediad. **Ni chaff** Diplomâu Mynediad eu derbyn ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cwblhau TGAU/Safon Uwch (neu gyfwerth) yn flaenorol, ac sydd wedi methu ag ennill y graddau sydd eu hangen.

## Ehangu cyfranogiad

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad. Rydym yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr o bob cefndir, ac rydym yn defnyddio data cyd-destunol wrth ystyried ceisiadau. Bydd ymgeiswyr sy'n cymryd rhan mewn ehangu'r mentrau cyfranogi a restrir isod yn cael cynnig cyfweiliad, cyhyd â'u bod yn bodloni'r gofynion mynediad gofynnol a ddisgrifir ar dudalen 4:

Rhaglen Camu 'Mlaen Prifysgol Caerdydd, mynychwyr Ymddiriedolaeth Sutton i Ysgol Haf Prifysgol Caerdydd, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (cynllun *Doctoriaid Yfory* yn benodol), Tystysgrif Coleg Gwent.

## Y broses ddethol

Mae'n rhaid gwneud ceisiadau drwy UCAS a gellir cael manylion yma: <https://www.ucas.com/>. Gellir eu gwneud drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg – gall myfyrwyr ddewis pa iaith y maen nhw'n dymuno cael gohebiaeth ynddi. **Y dyddiad cau ar gyfer gwneud ceisiadau mynediad 2021 yw 15 Hydref 2021. Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau.**

## Academaidd

Dylai ymgeiswyr gynnwys **POB** cymhwyster (gan gynnwys dadansoddiad o'r pynciau a'r graddau) a gyflawnwyd neu sydd yn yr arfaeth, o 14+ oed yn *Adran Addysg* eu cais UCAS. Ni fydd ymgeiswyr sy'n methu â gwneud hyn yn cael eu hystyried. Bydd y rhai sy'n cwrdd â'r trothwy academaidd isaf neu sy'n rhagori arno wedyn yn cael eu rhestru, a phennir torbwynt er mwyn symud ymlaen i ystyried y meini prawf anacademaidd. Atgoffir ymgeiswyr bod angen datganiad gan Ganolwr **academaidd**.

## UCAT/GAMSAT

Nid oes lleiafswm sgôr trothwy UCAT na GAMSAT ganddon ni, ond mae'n bosib y byddant yn cael eu defnyddio fel rhan o'n proses ddethol.

## Gofynion anacademaidd

Bydd ymgeiswyr sydd wedi cwrdd â'r torbwynt academaidd ar gyfer y flwyddyn neu sydd wedi rhagori arno yn cael eu hystyried yn ôl meini prawf anacademaidd yn unol â'r wybodaeth yn eu datganiad personol a datganiad y canolwr academaidd. Caiff ceisiadau eu hadolygu gan ddewiswyr hyfforddedig. Mae'r Ysgol Meddygaeth yn cydnabod bod cyfleoedd ar gyfer mathau penodol o brofiad gwaith a chymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg yn amrywio yn unol â chefnidir unigol pob ymgeisydd, gan gynnwys amgylchiadau economaidd-gymdeithasol, diwylliannol a daearyddol. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth adolygu'r datganiad personol.

## Cyfweliadau

Caiff ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer gynnig cyfweliad (fel arfer ym mis Rhagfyr/Ionawr ar ôl dyddiad cau UCAS ym mis Hydref). Anfonir gwahoddiadau drwy e-bost gyda dolen at ein system archebu ar-lein yn ystod mis Tachwedd y cylch ymgeisio. Ar ôl i ymgeisydd drefnu cyfweliad, ni ellir newid yr amser/dyddiad fel arfer, felly gwiriwch ddyddiadau eich dewisiadau ysgolion meddygaeth eraill er mwyn osgoi gwrthdaro (caiff dyddiadau cyfweliadau eu cyhoeddi ymlaen llaw yn aml).

Bydd y cyfweliad ar ffurf cyfres o gyfweliadau byr (MMIs), a fydd yn archwilio nodweddion a rhinweddau personol sy'n bwysig ar gyfer datblygu meddyg da <https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors/good-medical-practice>

Mae'n rhaid datgan unrhyw amgylchiadau esgusodol a allai gael effaith ar berfformiad yr ymgeisydd yn ystod y cyfweliad wrth drefnu amser y cyfweliad er mwyn ein galluogi i wneud addasiadau rhesymol. Mewn achos o salwch sy'n atal ymgeisydd rhag mynd i gyfweliad, dylai'r ymgeisydd gysylltu â'r Tîm Derbyn Myfyrwyr i geisio trefnu dyddiad cyfweld arall, ond ni ellir gwarantu hyn. Os oes gan yr ymgeisydd bryderon am gyfweliad, mae'n rhaid iddo dynnu sylw'r Tîm Derbyn Myfyrwyr at hyn ar ddiwrnod y cyfweliad. Ni fydd addasiadau ôl-weithredol yn cael eu gwneud.

**Gwneir pob cynnig ar ôl y cyfweliadau.** Bydd methu â dod i gyfweliad a drefnwyd heb resymau eithriadol yn arwain at wrthod y cais. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr nad ydynt yn cael cynnig cyfweliad. Bydd pob cyfwelai yn cael adborth ar ôl i'r holl gyfweliadau ddod i ben.

Bydd **ymgeiswyr llwyddiannus** yn cael gwybod drwy UCAS. I sicrhau cyfle cyfartal, ni fydd unrhyw gynigion yn cael eu gwneud nes bod yr holl gyfweliadau wedi'u cwblhau. Y Grŵp Derbyn Myfyrwyr bydd

yn gwneud y penderfyniad i wneud pob cynnig. Mae'r Tîm Derbyn Myfyrwyr yn ymdrechu i wneud cynigion cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol ar ôl y cylch cyfweld.

## Arfer annheg

Ni ystyrir ymgeisydd sy'n rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol ymhellach yn ystod y broses ymgeisio. Bydd UCAS hefyd yn cael eu hysbysu. Mae holl ddatganiadau personol UCAS yn destun proses canfod llên-ladrad. Bydd ceisiadau a amheuir eu bod yn cynnwys gwybodaeth ffug, anghywir, camarweiniol neu wedi'i llên-ladrata, yn cael eu hymchwilio yn unol â Pholisi Derbyn Myfyrwyr y Brifysgol. Caiff cynnig o gyfweiliad neu gynnig o le i astudio yn dilyn hynny ei dynnu yn ôl os bydd gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu dystiolaeth o arfer annheg yn cael eu darganfod ar ôl hynny. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau ein bod yn cael gwybod am unrhyw newidiadau perthnasol i'w amgylchiadau personol.

## Amodau mynediad eraill

Mae'r rhain yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (DBS), a chwblhau arolwg iechyd wedi'i drefnu gan Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol y Brifysgol.

## Cadarnhau lle

Bydd ymgeiswyr sydd wedi bodloni amodau eu cynnig yn cael eu hysbysu drwy UCAS. Bydd y rhai hynny sydd wedi methu â bodloni telerau eu cynnig yn cael eu cyfeirio at y Grŵp Derbyn Myfyrwyr i'w hadolygu. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y penderfyniad drwy UCAS. Mae penderfyniad y Grŵp Derbyn Myfyrwyr yn derfynol.

## Trosglwyddiadau

Mae gan Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd gwricwlwm integredig a throellog, felly nid yw fel arfer yn ystyried ceisiadau trosglwyddo gan fyfyrwyr sy'n astudio meddygaeth yn rhywle arall.

## Cyfathrebu â'r Ysgol Meddygaeth

Mae'n rhaid cyfathrebu â'r Tîm Derbyn Myfyrwyr am faterion sy'n ymwneud ag amgylchiadau personol yr ymgeisydd, a allai fod yn berthnasol i'r broses ddeddf o bosibl, yn ysgrifenedig trwy lythyr neu ebost. Oherwydd y Ddeddf Diogelu Data, dim ond yn uniongyrchol y gall y Brifysgol gyfathrebu â'r ymgeisydd o ran pob agwedd ar ei gais, oni bai bod yr ymgeisydd wedi awdurdodi trydydd parti i weithredu ar ei rhan.

## Cwynion ac apeliadau

Rydym wedi ymrwmo i gyflawni proses dderbyn effeithiol, teg ac o ansawdd uchel.

I gael gwybodaeth am y weithdrefn gwyno ac apelio ewch i: <http://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/students-applicants/admissions-policies/complaints-and-appeals>

## Ymddygiad yr ymgeisydd

Mae ymddygiad proffesiynol yn rhan bwysig o astudio meddygaeth a bod yn feddyg. Os oes ymddygiad yn ystod y broses dderbyn a allai gael ei ystyried yn amhroffesiynol, bydd hyn yn peryglu'r cais a gall arwain at wrthod y cais. Gall unrhyw ymddygiad sy'n mynd yn groes i Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a/neu Polisi Urddas yn y Gwaith ac wrth Astudio Prifysgol Caerdydd arwain at dynnu cynnig/derbyn yn ôl. Mae manylion y polisi ar gael yn <https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/equality-and-diversity>

## Ymholiadau pellach

Am ymholiadau eraill sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr i raglenni gradd meddygaeth israddedig Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd, cysylltwch â:



Tîm Derbyn Myfyrwyr yr Ysgol Meddygaeth  
 2il Lawr, Neuadd Meirionnydd  
 Campws y Mynydd Bychan  
 Prifysgol Caerdydd  
 Caerdydd  
 CF14 4YS  
 Ffôn: (029) 2068 8113/8073  
 Ebst: [medadmissions@caerdydd.ac.uk](mailto:medadmissions@caerdydd.ac.uk)

## ATODIAD

Rhaid i bob ymgeisydd roi tystiolaeth o allu academaidd blaenorol mewn arholiadau sydd wedi'u dilysu'n gyhoeddus a'u cymedroli'n allanol, e.e. TGAU, IGCSE neu gymwysterau cyfatebol. I ymgeiswyr sydd â chymwysterau o'r DU, dim ond y rhai hynny a ddiffinnir yn y Gronfa Genedlaethol o Gymwysterau Achrededig sy'n dderbyniol <http://www.accreditedqualifications.org.uk/office-of-qualifications-and-examinations-regulation-ofqual.html>

### Rhaglenni A100 ac A104: Gofynion TGAU

Pynciau TGAU	Isafswm gofynion
Saesneg Iaith	6 neu B
O leiaf un: Mathemateg neu Rifedd	6 neu B
Gwyddoniaeth	Naill ai 66 neu BB mewn Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol neu gymhwyster cyfwerth Neu 66 neu BB mewn Cemeg a Bioleg Neu 66 neu BB mewn Gwyddoniaeth Greiddiol, a naill ai Gwyddoniaeth Ychwanegol neu Wyddoniaeth Ychwanegol Bellach
Pynciau eraill	<p>Rhaid i ymgeiswyr gynnig cyfanswm o <b>naw</b> pwnc, gan gynnwys yr isafswm gofynion uchod. <b><i>Lle nad oes modd i ymgeisydd gyflawni naw TGAU oherwydd Polisi'r Ysgol, cynghorir yr ymgeisydd i anfon e-bost at <a href="mailto:medadmissions@caerdydd.ac.uk">medadmissions@caerdydd.ac.uk</a> i gael cyngor.</i></b></p> <p>Derbynnir TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf a gellir ei chynnig fel un o'r naw pwnc ar yr amod eich bod wedi cyrraedd y trothwy isaf ar gyfer Saesneg Iaith.</p> <p>Derbynnir TGAU Bioleg Ddynol, ond nid ar y cyd â TGAU Bioleg Safonol.</p> <p>Ni chaiff cwrs byr TGAU sengl ei ystyried ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, os oes dau gwrs byr a all gynnig mantais i ymgeisydd pe baent yn eu cymryd gyda'i gilydd, gellir eu hystyried fel un TGAU cyfan.</p> <p>Bydd tystysgrifau Lefel 2 megis y Dystysgrif mewn Cymwysiadau Digidol (CiDA), Busnes Cymhwysol, TGCh (bwrdd arholi) a'r Diploma mewn Cymwysiadau Digidol (DiDA), yn cael eu hystyried fel rhai sy'n cyfrannu un pwnc ychwanegol ar wahân, yn lle TGAU yn ystod y cyfnod sgorio academaidd.</p>

DDIM yn cael eu hystyried	NVQ a BTEC Lefel 2
<b>Polisi ail-sefyll TGAU</b>	<b>Dim ond canlyniadau ail-sefyll TGAU a gafwyd o fewn 12 mis i'r arholiad gwreiddiol byddwn yn eu derbyn, ac eithrio Saesneg Iaith sydd heb gyfyngiad amser i ail-sefyll.</b>

### Gwybodaeth ychwanegol am Fathemateg ar lefel TGAU

Mae gofyn i ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau o dan fwrdd arholi o Loegr fod â Mathemateg i radd 6 o leiaf. Mae gofyn i ymgeiswyr sy'n sefyll o dan CBAC fod â naill ai Mathemateg neu Rifedd i radd B o leiaf. Yn achos pob bwrdd arholi, byddwn hefyd yn derbyn **un** pwnc Mathemategol ychwanegol ochr yn ochr un ai â Mathemateg neu Rifedd o Fathemateg Ychwanegol, Mathemateg Bellach neu Ystadegau, os ydyw o fantais i'r ymgeisydd.

### Gofynion TAG Safon Uwch (A100)

Y cynnig fydd graddau AAA ar lefel Safon Uwch. Rhaid i fyfyrwyr gynnig tri phwnc Safon Uwch a **dylai** y rhain gynnwys Cemeg a Bioleg. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n cyflawni cymhwyster Safon Uwch mewn Gwyddoniaeth basio'r elfen hon lle nodir ardystiad ymarferol ar wahân. Gall ymgeiswyr sy'n cynnig Bioleg neu Gemeg yn unig ar Lefel A2, **ac** ail bwnc gwyddonol e.e. Ffiseg neu Fathemateg, gael eu hystyried o hyd ar gyfer cwrs A100, os ydynt yn ennill gradd A ar lefel UG yn y pwnc (Bioleg neu Gemeg) na chynigir ar Lefel A2. Cynghorir ymgeiswyr o'r fath i gysylltu â'r Tîm Derbyn Myfyrwyr, i gadarnhau derbynioldeb y trefniant hwn cyn gwneud cais.

### Gofynion TAG Safon Uwch (A104)

Mae'n rhaid i fyfyrwyr gynnig tair gradd Safon Uwch mewn unrhyw bwnc (ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol a Meddwl yn Feirniadol) gyda graddau AAA. Mae'r cwrs A104 ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn cynnig Bioleg a/neu Gemeg (neu gyfwerth) i Safon Uwch. **Nid yw ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt wedi ennill y graddau angenrheidiol yn y pynciau sydd eu hangen i gael lle yn rhaglen A100.**

### Gwybodaeth ychwanegol ynghylch Safon Uwch

Dim ond un pwnc Mathemategol i Safon Uwch (o Fathemateg, Mathemateg Bellach ac Ystadegau) bydd yn cael eu hystyried. Ni fydd Bioleg a Bioleg Ddynol yn cael eu hystyried fel dwy radd Safon Uwch wahanol.

**Ni dderbynnir** Astudiaethau Cyffredinol na Meddwl yn Feirniadol. Dylai ymgeiswyr sy'n cynnig pynciau cymhwysol gysylltu â'r Tîm Derbyn Myfyrwyr am gyngor [medadmissions@caerdydd.ac.uk](mailto:medadmissions@caerdydd.ac.uk).

### Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru (WBA):

Ystyrir yr WBA gyda gradd A yn gyffredinol yn lle gradd A Safon Uwch ar gyfer A100 ac A104. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ar gyfer A100 fodloni'r gofynion pwnc Safon Uwch mewn Bioleg a Chemeg hefyd.

### Graddedigion

Dylai pob ymgeisydd fod wedi cyflawni gradd B o leiaf ar lefel TGAU mewn Mathemateg, Saesneg (iaith), a Bioleg a Chemeg (neu Wyddoniaeth Greiddiol a Gwyddoniaeth Ychwanegol/Pellach) yn ogystal â graddau BBB neu ABC Safon Uwch a gradd BSc Anrhydedd 2:1 neu'n uwch. Dylai'r holl raddedigion fod â Bioleg a Chemeg i lefel Safon Uwch. Gall y rhai hynny nad oes ganddynt gymwysterau TAG Safon Uwch mewn Bioleg neu Gemeg gael eu hystyried ar gyfer y cwrs A100. Fodd bynnag, bydd gofyn iddynt ddarparu manylion modiwlau penodol o'u cyrsiau gradd ac yna ystyrir y rhain yn unigol gan y Tîm Derbyn Myfyrwyr. Gallwch gael rhagor o fanylion gan y Tîm Derbyn. Dylai ymgeiswyr sydd wedi cwblhau PhD sy'n dymuno gwneud cais ar gyfer Meddygaeth gysylltu â'r Grŵp Derbyn Myfyrwyr i gael cyngor.

Mae'r perfformiad academaidd unigol sy'n ofynnol i fod yn gymwys i wneud cais ar gyfer y cwrs A101/A102 wedi'i bennu gan bob cwrs Ffrwd Fwydo. Cyfrifoldeb y Brifysgol sy'n darparu'r Ffrydiau Bwydo yw gwirio'r gofynion derbyn a sicrhau bod yr ymgeiswyr sydd wedyn yn ymgeisio i A101/A102 yn gystadleuol.

Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr sydd wedi graddio gymryd arholiad GAMSAT cyn gwneud cais. Gellir ystyried graddedigion nad oes ganddynt gefndir gwyddonol priodol ar gyfer y cwrs A104 chwe blynedd, a bydd angen iddynt sefyll yr UCAT.

**Rhaid i ymgeiswyr fod wedi cwblhau eu gradd neu mae'n rhaid iddynt fod ym mlwyddyn olaf eu rhaglen gradd bresennol i'w cais gael ei ystyried.** Rhaid dyfarnu canlyniadau gradd a'u cyflwyno erbyn 31 Awst o'r flwyddyn y byddant yn cael eu derbyn i'r cwrs.

### **Y Fagloriaeth Ryngwladol**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n ymgeisio cyn cyflawni cymhwyster y Fagloriaeth Ryngwladol **gynnwys manylion (gan gynnwys dadansoddiad o'r pynciau a'r graddau) am yr arholiadau Lefel 2, TGAU a Rhaglen Blynyddoedd Canol a gyflawnwyd ganddynt, yn Adran Addysg eu cais UCAS er mwyn cael eu hystyried.** Bydd angen cyfanswm o 36 pwynt i gyd (ac eithrio Gwybodaeth Theori a'r Traethawd Estynedig) ar ymgeiswyr llwyddiannus er mwyn cael eu derbyn. Rhaid cael o leiaf 19 pwynt mewn pynciau lefel Uwch, sy'n cynnwys sgôr o 7, 6, 6 pwynt gan gynnwys dau bwnc gwyddonol. Mae'n rhaid i hyn gynnwys naill ai Bioleg neu Gemeg o leiaf ar lefel Uwch (os na chynigir y ddau bwnc, yna mae'n rhaid cynnwys Cemeg, Bioleg, Ffiseg, a naill ai Mathemateg neu Ystadegau fel yr ail bwnc), gyda sgôr o 6 pwynt yn cael ei gyflawni naill ai mewn Cemeg neu Fioleg. Rhaid cynnig Cemeg neu Fioleg ar lefel safonol gyda sgôr o 7, os nad ar lefel Uwch.

Bydd angen cyfanswm o 36 pwynt i gyd (ac eithrio Gwybodaeth Theori a'r Traethawd Estynedig) ar ymgeiswyr ar gyfer y cwrs Rhagarweiniol A104 chwe blynedd er mwyn cael eu derbyn. Rhaid cael o leiaf 19 pwynt yn y pynciau Lefel Uwch, sy'n cynnwys sgôr o 7, 6, 6 pwynt. Nid yw ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt wedi ennill y graddau angenrheidiol yn y pynciau sydd eu hangen i gael lle yn rhaglen A100.

Os na chynigir Mathemateg a Saesneg Iaith yn y diploma, dylid eu cynnig fel pynciau TGAU gydag o leiaf gradd 6/B.

### **Diploma Bagloriaeth Ewropeaidd**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y cwrs A100 gael marc cyffredinol terfynol o 85% o leiaf. Rhaid cynnwys Cemeg a Bioleg gyda graddau unigol o 8.5 o leiaf ym mlwyddyn 7 yn y Diploma.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y cwrs Rhagarweiniol A104 chwe blynedd gael marc cyffredinol terfynol o 85% o leiaf. Mae'r cwrs hwn ar gyfer y rhai hynny nad ydynt wedi cymryd y modiwlau Bioleg a Chemeg ac felly nad oes ganddynt y dyfnder o ran arbenigedd pwnc sy'n gysylltiedig â'r rhaglen A100.

Os na chynigir Mathemateg a Saesneg Iaith yn y diploma, dylid eu cynnig fel pynciau TGAU gydag o leiaf gradd 6/B. Os ydynt yn gwneud cais cyn eu bod wedi cyflawni cymhwyster terfynol y Fagloriaeth Ewropeaidd, **mae'n rhaid i bob ymgeisydd sy'n cynnig y Fagloriaeth Ewropeaidd gynnwys manylion am yr arholiadau Lefel 2, TGAU neu S6 a gyflawnwyd ganddynt, yn Adran Addysg y ffurflen UCAS er mwyn cael eu hystyried.**

### **Diploma Cyn Prifysgol Caergrawnt**

Mae'r Diploma Cyn-Prifysgol yn ofynnol gyda thair gradd D3 yn y Prif Bynciau, ac mae'n rhaid i'r rhain gynnwys Cemeg a Bioleg. Fel arall, gall ymgeiswyr gynnig un Prif Bwnc yn ogystal ag AA ar lefel Safon

Uwch. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ar gyfer A100 gynnwys Cemeg a Bioleg ar lefel Cyn Prifysgol neu Safon Uwch.

### Bagloriaeth AQA

Yn ogystal â llwyddo yn y Fagloriaeth, mae angen graddau AAA mewn tri phwnc Safon Uwch – ac mae'n rhaid i'r rhain gynnwys Cemeg a Bioleg.

### Rhaglenni Diploma Mynediad

Caiff y rhai hynny sy'n astudio Mynediad at Ddiploma Gwyddoniaeth neu Fynediad at Ddiploma Meddygaeth a gydnabyddir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch <http://www.accesstohe.ac.uk/Pages/Default.aspx> eu hystyried ar sail unigol ar gyfer dechrau'r cwrs Ragarweiniol chwe blynedd A104. Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sydd wedi bod allan o addysg amser llawn am o leiaf pedair blynedd cyn eu cwrs Mynediad. Mae'n rhaid i ymgeiswyr Diploma Mynediad fodloni'r gofynion mynediad gofynnol ac mae'n rhaid iddynt ennill lefel Rhagoriaeth ym mhob uned asesu. Ni dderbynnir yr Uwch-Ddiploma (14–19) mewn Cymdeithas, Iechyd a Datblygiad. **Ni** dderbynnir diplomâu ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi cwblhau Safon Uwch (neu gyfwerth) yn flaenorol ac wedi methu â chyflawni'r graddau gofynnol, oni bai bod amgylchiadau esgusodol eithriadol. Mewn achosion o'r fath, cynghorir darpar ymgeiswyr i anfon e-bost at [medadmissions@caerdydd.ac.uk](mailto:medadmissions@caerdydd.ac.uk).

### Cymwysterau Iwerddon

Mae ymgeiswyr sydd â chymwysterau Iwerddon yn gymwys i ymgeisio ar gyfer cwrs A100. Os bydd ymgeiswyr yn gwneud cais cyn cael cymwysterau Tystysgrif Ymadael, mae'n rhaid iddynt gynnwys eu cymwysterau Tystysgrif lau (gan gynnwys dadansoddiad o'r pynciau a'r graddau) yn *Adran Addysg* eu cais UCAS er mwyn cael eu hystyried. Ar gyfer cymwysterau Tystysgrif lau, mae Saesneg a Mathemateg yn ofynnol ar lefel Safon Uwch. Mae'n rhaid i bob pwnc a gynigir ar y Dystysgrif lau fod yn radd B neu'n Deilyngdod Uwch, ac mae'n rhaid iddynt gynnwys Gwyddoniaeth. Ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Adael mae'n rhaid i ymgeiswyr gynnig chwe phwnc ar lefel Uwch, a chael chwe gradd H2, gan gynnwys Cemeg a Bioleg. Rhaid pasio Mathemateg a Saesneg (iaith) i Lefel O3 o leiaf.

### Cymwysterau'r Alban

Mae ymgeiswyr sy'n cynnig dau bwnc ar lefel Diploma Uwch gyda graddau AA (yn cynnwys Cemeg a Bioleg) ochr yn ochr â phum gradd A yn gymwys i ymgeisio ar gyfer y cwrs A100. Mae ymgeiswyr sydd â phum gradd A mewn Diploma Uwch yr Alban, yn cynnwys Cemeg a Bioleg, yn gymwys ar gyfer y cwrs A104. Rhaid pasio Mathemateg a Saesneg (iaith) hyd at Lefel Safonol o leiaf gyda Gradd 2 neu Radd B.

### Cymwysterau BTEC

Derbynnir Diploma Estynedig BTEC Lefel 3 mewn Gwyddoniaeth Gymhwysol ar lefel DDD fel cymhwyster er mwyn cael eich derbyn i'r cwrs A104 chwe blynedd. Rhaid i ymgeiswyr sy'n gwneud y cwricwlwm newydd (2016) hefyd gyflawni rhagoriaeth ym mhob uned a asesir yn allanol. Mae angen y Diploma Cenedlaethol Uwch ar lefel Rhagoriaeth ar gyfer mynediad i'r cwrs A100 5 mlynedd. Rhaid i ymgeiswyr hefyd fodloni'r gofynion mynediad gofynnol a nodir uchod.

### Graddedigion deintyddol

Bydd graddedigion deintyddol sy'n gwneud cais i astudio Meddygaeth yn cael eu hystyried ar gyfer y cwrs A101/A102 pedair blynedd yn unig. Mae'n ofynnol bod ymgeiswyr wedi cwblhau hyfforddiant ôl-raddedig pellach gan ennill cymwysterau proffesiynol priodol. Dylai ymgeiswyr gyflwyno *curriculum vitae* llawn i'r Tîm Derbyn ([medadmissions@caerdydd.ac.uk](mailto:medadmissions@caerdydd.ac.uk)) ar adeg gwneud eu cais UCAS. Mae'n rhaid bod gan ymgeiswyr sgôr GAMSAT cyfredol, a bydd angen iddynt gymryd rhan yn y broses gyfweled er mwyn cael eu hystyried.

Mae Cymdeithas Llawfeddygon Prydeinig y Geg, y Genau a'r Wyneb (OMFS) yn rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr o ran cael hyfforddiant yn y Gymdeithas <https://www.baoms.org.uk/>.

